

ARCHIFYDY MORGANNWG

POLISI CASGLU

Diffiniad

Gwasanaeth archifol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (ar ran ardal hen Gyngor Dosbarth Cwm Rhymni), Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr a Dinas a Sir Caerdydd, wedi ei gynnal drwy Gyd-bwyllgor Archifol Morgannwg.

Hawl i gasglu:

Mae Archifdy Morgannwg yn ceisio cydymffurfio â phob deddf sy'n berthnasol i archifdai awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penodi'r Archifdy yn gadwrfa ar gyfer cofnodion cyhoeddus yr ardal dan amodau Adran 4(1) Deddf 'Cofnodion Cyhoeddus' 1958, gan gynnwys:

Llys y Chwarter, Llys yr Ynadon, Llys y Goron, Swyddfa'r Crwner, cofnodion GIG Adran Iechyd, y Lluedd Tiriogaethol a Chynorthwyol, glofeydd cyn dyddiad breinio BGP, cofrestri llongau Bwrdd Tollau Tramor a Chartref EM, Pwyllgor Asesu Lleol Bwrdd Cyllid y Wlad, cynlluniau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynglŷn â hen gloddfeydd, y Pwyllgor Cyngori ar Gomisiynwyr Cyffredinol Trethi Incwm, Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Rheilffyrdd.

Mae'r Archifdy wedi ei gydnabod gan:

Meistr y Rholiau fel cadwrfa swyddogol ar gyfer cofnodion maenorau a degymau.

Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol fel cadwrfa sy'n cyflawni Safon Cadwrfeydd Cofnodion.

Bwrdd Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru fel cadwrfa ar gyfer cofnodion plwyfol Esgobaeth Llandaf yn unol a chytundeb rhwng y Bwrdd Cynrychiadol ac Archifdai Sirol Cymru.

Archesgobaeth Eglwys Rufain Gaerdydd ar gyfer cofnodion plwyf deoniaethau Dwyrain Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau'r Cymoedd a Phontypridd yn unol a chytundeb rhwng Archesgobaeth Caerdydd ac Archifdai Sir Henffordd, Morgannwg a Gwent.

Ystod y gwaith casglu:

Mae Archifdy Morgannwg yn gwasanaethu ardal hen siroedd Morgannwg Ganol a De Morgannwg, ac, ar gyfer cofnodion plwyfi eglwysig, Esgobaeth Llandaf ac Archesgobaeth Caerdydd ar gyfer y deoniaethau a rhestrir uchod. Mae'r Archifdy hefyd yn gyfrifol am archifau Sir Forgannwg sy'n perthyn i'r cyfnod cyn 1974 ac yn ymwneud â holl ardaloedd yr hen sir honno.

Yn amodol ar yr angen i gadw archifau o'r un fath ynghyd lle bo'n bosibl ac yn ymarferol, ni fydd yr Archifdy yn derbyn cofnodion sy'n ymwneud ag ardaloedd y tu allan i'r ffiniau sydd wedi ei pennu, oni bai fod amgylchiadau arbennig a bod unrhyw archifdy perthnasol arall wedi rhoi ei ganiatâd. Yn achos dadl rhwng yr Archifdy a chadwrfa arall ynglŷn â'r lle mwyaf priodol i gasgliad penodol, byddwn yn cael cyngor cymodwr annibynnol.

Rhaid i'r deunydd mae'r Archifdy yn ei dderbyn fod yn unol a diffiniad y *Cyngor Cenedlaethol ar Archifau*, sef 'cofnodion sydd wedi cronni trwy broses naturiol o weinyddu materion o unrhyw fath, boed gyhoeddus neu breifat, unigol neu gorfforaethol, ac sydd wedi eu gadw oherwydd iddynt fod o werth gweinyddol neu hanesyddol' (Polisi Archifau 1996) ac yn unol a diffiniadau'r deddfau perthnasol, gan gynnwys Deddf 'Cyfraith Eiddo' 1922, Deddf 'Degymau' 1936, Deddf 'Cofnodion Cyhoeddus' 1958 a Deddf 'Llywodraeth Lleol' 1972. Byddwn yn derbyn ffotograffau a chofnodion ar ffurf cyfryngau cyfoes lle bo modd eu hystyried yn brif ffynhonnell ynglŷn â hanes Morgannwg. Ni fyddwn yn derbyn papurau newydd fel arfer, gan eu hanfon nhw i'r llyfrgell briodol. Byddwn yn anfon gweithiau llaw i'r amgueddfa briodol fel arfer, ac yn anfon ffilmiau i Archif Sgrîn a Sain Cymru.

Casglwyd gweithiau printiedig a chyhoeddedig gan Archifdy Morgannwg er mwyn:

- atchwanegi at gasgliadau archifol yr Archifdy
- darparu arweinyfrau i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r Archifdy ynglŷn â sut i ddefnyddion archifau, ag ar sut i ymgymryd a gwaith ymchwil penodol sy'n ymwneud â chasgliadau'r Archifdy
- darparu mynediad i gatalogau o ddaliadau archifdai eraill, lle mae'r casgliad yn ymwneud â'r ardal ddaearyddol a amlinellwyd uchod, a lle nad oes copi ar gael ar ffurf arall
- darparu i staff yr Archifdy yr wybodaeth proffesiynol diweddaraf, ynghyd â chyngor ar reolaeth, gofal a chadwraeth archifau

Casglwyd deunydd printiedig a chyhoeddedig hefyd fel rhan annatod o archif.

Y broses casglu

Byddai'n well gan yr Archifdy derbyn casgliadau a chyflwynir fel rhoddion, yn ôl yr Amodau Adneuo, yn hytrach na'u prynu nhw oherwydd prinder arian i'r diben yma. Dim ond dogfennau hanesyddol pwysig sy'n perthyn i'r ardal yma byddwn yn eu prynu. Rydym hefyd yn derbyn cofnodion trwy gyfrwng trosglwyddo uniongyrchol oddi wrth yr awdurdodau lleol sy'n cyfrannu i'r cydwasanaeth.

Prynwyd rhan fwyaf o ddaliadau printiedig Archifdy Morgannwg. Derbynnir deunydd printiedig hefyd fel rhoddion, ond ni dderbynnir ar adnau neu ar fenthyg.

Mae'r Archifdy yn cymryd fod gan pob casgliad a chynigwyd hawl berchen glir a dilys iddo. Byddwn yn rhoi derbynneb i'r perchennog ac arni ddisgrifiad o'r dogfennau dan sylw a manylion mynediad cyn pen 15 diwrnod ar ôl eu derbyn. Byddwn yn paratoi gwybodaeth fanylach yn ôl polisi cyfredol yr Archifdy a'i rhoi i'r perchennog maes o law.

Wrth brosesu'r casgliad, naill ai cyn ei drosglwyddo i'r Archifdy neu wedyn, byddwn yn gofalu bod ansawdd y dogfennau yn addas ar gyfer eu cadw'n barhaol ac nad oes rhai o'r un fath mewn cadwrfa yn barod. Bydd gyda'r Archifdy'r hawl i drosglwyddo dogfennau i gadwrfa fwy addas os ydym o'r farn byddai hynny o les iddyn nhw. Byddwn yn anfon yn ôl at y perchennog unrhyw ddogfennau nad ydym wedi eu dewis i'w cadw'n barhaol, oni bai fod trefniadau amgen wedi'u pennu adeg y trosglwyddo. Mae'r hawl gyda'r Archifdy i adolygu casgliadau yn rheolaidd ac argymell y dylid cael gwared arnynt yn ôl yr angen, neu drosglwyddo deunydd printiedig i'r archifau.

Mynediad i'r dogfennau

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am gasgliadau newydd cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn lledaenu gwybodaeth am sut mae cael hyd i'r dogfennau, gan ddefnyddio'r dechnoleg orau ar gyfer cyrraedd cymaint o bobol ag y bo modd.